**BWRDD CROESO CYMRU**

**DATGANIADAU CYFRIFON AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2005**

**CYNNWYS**


| | | TUD |
|---|---|---|
| 1. | **RHAGAIR I'R CYFRIFON** | **1** |
| 2. | **DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R A'R PRIF WEITHREDWR** | **4** |
| 3. | **DATGANIAD AR REOLAETH ARIANNOL FEWNOL** | **5** |
| 4 | **TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU** | **6** |
| 5. | **CYFRIF INCWM A GWARIANT** am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 | **8** |
| 6. | **DATGANIAD O'R HOLL ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG** | **9** |
| 7. | **MANTOLEN** ar 31 Mawrth 2005 | **10** |
| 8. | **DATGANIAD LLIF ARIAN** am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 | **11** |
| 9. | **NODIADAU I'R CYFRIFON** | **12 - 27** |

# BWRDD CROESO CYMRU

## RHAGAIR I'R CYFRIFON

## 31 MAWRTH 2005

### 1. Cefndir Statudol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

Sefydlwyd Bwrdd Croeso Cymru dan Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 gyda'r swyddogaethau canlynol:-

(a) I annog pobl i ymweld â Chymru ac annog pobl sy'n byw yng Nghymru i fynd ar eu gwyliau yno; a
(b) I annog darparu a gwella mwynderau a chyfleusterau twristiaeth yng Nghymru.

Hefyd rhoddwyd y swyddogaeth o hyrwyddo Cymru dramor i'r Bwrdd gan Ddeddf Twristiaeth (Hyrwyddo Dramor) (Cymru) 1992.

Paratowyd y cyfriflenni ar ffurf a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys ac yn unol ag adran 6(I) o'r Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd o Brif Swyddfa'r Bwrdd.

### 2. Arolwg o Weithgareddau a Datblygiadau yn y Dyfodol

Yn ystod 2004-2005 parhaodd Bwrdd Croeso Cymru i ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn ei strategaeth a gweithgaredd arfaethedig, fel yr amlinellwyd yn Cyflawni ein Potensial, y Cynllun Corfforaethol ac yn erbyn cefndir strategol strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru.

Roedd 2004 yn dymor o atgyfnerthiad ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn dilyn canlyniadau arbennig 2003. Roedd perfformiad ar yr ochr ryngwladol yn arbennig o bositif; dengys canlyniadau dros dro o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2004 y cafwyd dros un miliwn o deithiau gan ymwelwyr tramor i Gymru am y tro cyntaf erioed – cynnydd o 13% ar 2003. Roedd eu gwariant gros yn £310 miliwn – cynnydd o 15% – y swm uchaf o wariant blynyddol erioed i'w gofnodi ar gyfer ymwelwyr tramor i Gymru.

Yn gyffredin â gweddill Prydain, gostyngodd y nifer o dwristiaid domestig oedd yn aros yn 2004 o gymharu â 2003, yn ôl canlyniadau dros dro Arolwg Twristiaeth Prydain, er bod hyn i'w ddisgwyl i raddau, o ystyried canlyniadau arbennig 2003 a'r tywydd anffafriol yn ystod misoedd brig yr haf yn 2004. Dengys canlyniadau dros dro UKTS fod, mewn termau cyffredinol, gwariant twristaidd Prydain wedi gostwng 9% yn 2004 ac o 15% yng Nghymru o gymharu â 2003. Fodd bynnag, gallai'r lleihad fod yn fwy ymddangosiadol na real oherwydd trafferthion yn ymwneud â gwahanol ddulliau o fethodoleg a gafwyd gyda'r arolwg hwn. Mae newidiadau i'r fethodoleg bellach wedi eu gweithredu er mwyn delio â'r problemau hyn ledled Prydain.

Dengys Arolwg Deiliadaeth y Bwrdd Croeso fod cyfartaledd deiliadaeth gwlâu gwestyau a Gwely a Brecwast/Tai Llety i fyny 1% yn 2004 o gymharu â 2003. Roedd cyfartaledd lefelau deiliadaeth ymysg gweithredwyr hunan-ddarpar annibynnol i lawr 1% yn 2004, er roedd deiliadaeth carafannau sefydlog i lawr 9% yn arolwg y Bwrdd.

Yn ail gam Arolwg Busnes Twristiaeth y Bwrdd, a gyflawnwyd yn ystod Gŵyl y Banc y Pasg yn 2005, gofynnwyd i'r sampl o 200 o fusnesau gymharu eu perfformiad yn 2004 o gymharu â 2003. Dywedodd 55% o'r sampl hwn fod cyfanswm eu nifer o ymwelwyr/gwesteion wedi cynyddu yn 2004, tra bod 20% arall yn nodi yr un lefel o fusnes.

Yn ystod 2004-2005, fe neilltuodd y Bwrdd £6.7 miliwn ar gyfer 111 o brosiectau unigol trwy ei gynllun cefnogi buddsoddiad, gan greu cyfanswm o £40 miliwn o fuddsoddiad (yr oedd £21.2 miliwn o'r sector preifat) a chreu neu ddiogelu 435 o swyddi yn cyfateb i lawn amser.

Parhaodd y Bwrdd i weithredu ymgyrchoedd marchnata effeithiol ym mhob marchnad allweddol. Gydag ymchwil yn dangos fod yr ymgyrchoedd wedi creu gwariant ychwanegol sylweddol i Gymru.

Mae ymgyrch 3 blynedd Mawredd Mawr wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan gyflawni lefelau uwch nag erioed o ymwybyddiaeth, ymholiadau ac ymwelwyr. Parhaodd ymgyrch 2004 gyda'r llwyddiant hwn, gan gyflawni

405,000 o ymholiadau. Yn ystod 2004, penderfynwyd datblygu arddull greadigol newydd gan gadw is-bennawd ymgyrch Mawredd Mawr. Mae'r ymgyrch newydd yn ymdrechu i siarad o galon Cymru gan ddefnyddio arddull onest ac ysgafn i sgwrsio am y gwir le, pobl a phrofiad ymweld.

Mae cynnal Cwpan Ryder yn 2010 yn rhoi cyfle sylweddol i roi proffil i Gymru. Byddwn yn parhau i elwa ar fanteision twristiaeth a delwedd enfawr hyn ar gyfer Cymru gyfan cyn, yn ystod ac wedi'r digwyddiad.

Yn dilyn cyhoeddiad Prif Weinidog Cymru ar 14 Gorffennaf 2004 i integreiddio swyddogaethau'r Bwrdd i mewn i Lywodraeth y Cynulliad, rydym wedi ymroi i chwarae rhan weithredol a phositif yn adeilad gwasanaeth cyhoeddus newydd i Gymru, yn ogystal â chynnal cysondeb busnes a safonau uchel o wasanaeth ar gyfer y diwydiant yng Nghymru.

Hefyd, fe gyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar 14 Gorffennaf 2004 y byddai Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Dysgu ac Addysgu Cymru yn cael ei uno â'r Cynulliad Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2006. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad asesiad cychwynnol o gostau a manteision cam cyntaf yr uno yn y ddogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2005. Roedd yn awgrymu y gallai'r uno gynhyrchu arbedion parhaus o rhyw £10 miliwn y flwyddyn o 2009 ymlaen, ac y byddai angen gofyniad cyllidebol ychwanegol o rhyw £10 i £12 miliwn dros y pump i chwe blynedd nesaf. Nid yw'r amcangyfrifon dros dro hyn yn cynnwys buddsoddiad yn ymwneud â staff allai fod angen. Yn ogystal, fe gytunodd Llywodraeth y Cynulliad, yn ystod trafodaeth ar 13 Mehefin 2005, i gyhoeddi rhagor o wybodaeth ar gostau'r uno yn Rhagfyr 2005.

Canlyniadau a Neilltuadau ar gyfer y flwyddyn
Mae Bwrdd Croeso Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Cyfanswm yr arian a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn o 1 Ebrill 2004 hyd at 31 Mawrth 2005 oedd £28 miliwn. O'r swm hwn –

- roedd £19 miliwn yn grant mewn cymorth craidd; gyda
- £3 miliwn ychwanegol ar gyfer prosiectau twristiaeth (Cymorth grant gan y Cynulliad ar gyfer buddsoddi cyfalaf);
- £2 miliwn ar gyfer Adferiad Gwledig; a
- £4 miliwn o gronfeydd y Ffordd i Ffyniant i gynorthwyo gyda phrojectau arian cyfatebol yr UE.

Roedd gwariant yn £1,662,000 yn fwy na'r incwm a ddaeth o'r cronfeydd wrth gefn. Yr unig symudiad arall i gronfeydd wrth gefn oedd gostyngiad net o £76,000 i'r cyfrif grant llywodraeth gohiriedig.

Busnes Gweithredol
Dengys y fantolen ar 31 Mawrth 2005 rwymedigaethau net o £1,606,000. Mae hyn yn adlewyrchu cynnwys rhwymedigaethau sydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod fydd, yng nghymaint â nad ydynt i'w talu o ffynonellau eraill incwm Bwrdd Croeso Cymru, ddim ond yn cael eu talu gan grantiau neu gymorth grant gan adran nawdd Bwrdd Croeso Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol neu gan geisiadau yn y dyfodol am Gyllid Ewropeaidd a fydd, pan y'i gwireddir, yn ateb y rhwymedigaeth net yn llawn. Mae hyn oherwydd, dan y trefniadau arferol ar gyfer rheolaeth y Cynulliad dros incwm a gwariant, ni ellir dosbarthu grantiau o'r fath o flaen llaw i'r angen.

Mae cymorth grant ar gyfer 2005/06, gan roi ystyriaeth i'r swm sy'n ofynnol i gwrdd â rhwymedigaethau Bwrdd Croeso Cymru sy'n daladwy o fewn y flwyddyn honno, eisoes wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer y flwyddyn honno a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac nid oes rheswm i gredu na fydd nawdd a chymeradwyaeth y Cynulliad yn y dyfodol ar gael. Felly, ystyriwyd y byddai'n addas mabwysiadu sylfaen busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r mantolenni ariannol hyn.

## 3. Asedau sefydlog

Ym marn y Bwrdd nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad yr Asedau sefydlog. Dangosir y rhain yn Nodiadau 8 a 9 i'r Cyfrifon.
Mae ychwanegiadau Asedau Sefydlog yn ymwneud yn bennaf â chaffaeliadau o galedwedd a meddalwedd TG (£91,000).

## 4. Polisi Talu Credydwyr

Amcan Bwrdd Croeso Cymru yw talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb neu gais dilys arall am daliad.

Mae'r Bwrdd yn barnu, wrth gadw at egwyddorion y Côd Gweithdrefn Talu Gwell, bod hyn wedi ei gyflawni ar gyfer 56% o bob taliad a wnaed yn 2004/2005 (2003/2004 –55%). Gwnaed ymdrechion sylweddol i wella'r ystadegyn hwn ac, er gwaethaf y ffaith fod cynnydd mewn llwyth gwaith yn parhau i fod heb ei gyfateb â chynnydd mewn adnoddau, mae'r ganran wedi gwella'n raddol, gyda chyfartaledd o 90% yn y cyfnod Mawrth i Mai 2005.

## 5. Yr Ewro

Er bod Bwrdd Croeso Cymru wedi cynghori'r diwydiant twristiaeth ynglŷn â'r ffaith y gall y DU ymuno ag arian sengl, nid yw'r Bwrdd eto wedi gwario unrhyw beth parthed y digwyddiad hwn.

## 6. Y rhan y mae cyflogeion yn ei chwarae

Cyfarfu Cyngor Whitley Bwrdd Croeso Cymru (Cyd-staff), sydd â'r amcan o gysoni cysylltiadau rhwng Bwrdd Croeso Cymru a'i gyflogeion, 3 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yw undeb llafur cydnabyddedig y Bwrdd.

Seilir polisi'r Bwrdd ar recriwtio ar allu ymgeisydd i gyflawni'r gwaith. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl pan fydd y sgiliau a'r galluoedd priodol ganddynt i gyflawni'r gwaith. Pe baent yn mynd yn anabl yn ystod y gyflogaeth, byddai'r Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i waith arall iddynt a sicrhau bod ailhyfforddiant digonol ar gael iddynt a chyfleusterau i ddatblygu gyrfa. Mabwysiadwyd y Fenter Cyflog Cyfartal fel rhan o Ddyfarniad Tâl y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

## 7. Aelodau'r Bwrdd

Aelodau'r Bwrdd a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn oedd:-

| Enw | Cyfnod y Cytundeb |
|---|---|
| Philip Evans (a benodwyd yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2000) | 11 Rhagfyr 1998 i 31 Mawrth 2006 |
| Ieuan Evans M.B.E. | 20 Chwefror 2002 i 31 Mawrth 2006 |
| Peter Hands | 21 Mai 2001 i 20 Mai 2007 |
| Carys Howell | 21 Mai 2001 i 20 Mai 2007 |
| Christine Lewis O.B.E. | 1 Awst 2000 i 31 Gorffennaf 2006 |
| Dr Terry Stevens | 1 Awst 2000 i 31 Gorffennaf 2006 |

Mae cofrestr o fuddiannau'r Aelodau ar gael i'w archwilio yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa'r Bwrdd yng Nghaerdydd.

## 8. Archwiliad

Archwilir cyfrifon Bwrdd Croeso Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969. Cydnabyddiaeth yr archwiliwr ar gyfer y flwyddyn am y gwaith archwilio oedd £27,000 (2003/2004 : £26,000). Yn ogystal, fe dderbyniont £37,000 (2003/2004 : £12,000) am wasanaethau eraill, sef darparu gwaith sicrwydd ychwanegol ac archwilio ceisiadau UE.

D.J.L. Jones
Prif Weithredwr

15 Gorffennaf 2005

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU BWRDD CROESO CYMRU A'R PRIF WEITHREDWR

O dan Adran 6(i) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 mae'n ofynnol i Fwrdd Croeso Cymru baratoi cyfriflen ar ffurf a sail a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o gyflwr materion y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn a'i incwm a'i wariant a'i lif arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n rhaid i Fwrdd Croeso Cymru:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, gan gymhwyso polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd endid yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu Bwrdd Croeso Cymru. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian y cyhoedd a thros gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

**DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

**Cwmpas cyfrifoldeb**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth mewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion Bwrdd Croeso Cymru (Y Bwrdd), tra'n diogelu yr arian cyhoeddus a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ac Asedau y Bwrdd Croeso, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd i mi drwy Gyfrifo'r Llywodraeth.

Mae fy swyddogaeth yn cynnwys trefniadau atebolrwydd â CCC sy'n gofyn am gyfarfodydd misol â'r Gweinidog Datblygu Economaidd a chyfarfodydd monitro chwarterol rhwng pob adran o'r Bwrdd ag Isadran Nawdd Polisi Economaidd CCC.

**Pwrpas y system o reolaeth fewnol**

Cynlluniwyd y system o reolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol y gall ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r prif risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Bwrdd Croeso, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith os y'i gwireddir, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn weithredol yn y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyaeth yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac yn bodloni canllawiau'r Trysorlys.

**Gallu i ddelio â risg**

Rwyf wedi arwain strategaeth rheoli risg y bwrdd trwy:

- Pennu cyfrifoldebau i adrannau ar gyfer rheoli'r peryglon a nodir;
- Parhau i ddatblygu cofrestr risg ledled y sefydliad trwy bwyllgor gwaith traws adrannol yn galluogi staff i reoli risg fel fo'n addas i'w hawdurdod a dyletswyddau;
- Darparu canllaw parhaus gan Archwilwyr Mewnol y bwrdd i gynnwys arweiniad ac arfer gorau; a
- Pwyslais cynyddol ar Gynllunio Busnes yn cynnwys Cydlynu Rheoli Risg.

**Y fframwaith risg a rheolaeth**

Sicrhaodd y Bwrdd Croeso barhad yn y datblygiadau yn rheolaidd drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio, sy'n galluogi'r Bwrdd i bennu ei awch am risg. Yn ystod 2004-05 mae'r Bwrdd Croeso wedi parhau gyda'i broses cynllunio busnes sy'n ei alluogi i ymgorfforí gweithdrefnau rheoli perygl yn ei weithrediadau. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer derbyn ac adolygu adroddiadau gan holl ddeiliaid cyllidebau ar y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i reoli'r perygl yn eu meysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys adroddiadau cynnydd ar brojectau allweddol.

Mae gan y Bwrdd Croeso system sefydledig o amcanion, targedau a chostau rhaglenni ar gyfer pob un o'i brif adrannau a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. Bu mwy o bwyslais ar Gynllunio Busnes yn ystod 2003-04 gyda gweithdai pellach ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion. Caiff y targedau eu monitro drwy adroddiadau cyflawniad blynyddol a hanner blwyddyn a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhelir adolygiad parhaus o'r broses hon er mwyn gwella'r gwaith o bennu targedau a mesur perfformiad.

Mae'r Bwrdd Croeso yn cynnwys cyfranddalwyr allweddol mewn twristiaeth yng nghynnal ei weithgareddau a datblygu ei bolisïau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r broses hon yn sicrhau fod y Bwrdd Croeso yn gallu rheoli risgiau ledled Cymru ac ar lefel ranbarthol.

**Arolwg o effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros arolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae fy arolwg o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol wedi ei arwain gan waith yr archwilwyr mewnol ac uwch staff o fewn y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi derbyn cyngor ar oblygiadau canlyniadau fy arolwg ar y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ac yn bwriadu delio â gwendidau a sicrhau fod gwelliannau parhaus o'r system yn weithredol.

Mae'r Bwrdd Croeso wedi sicrhau fod rheolaeth risg wedi ei gynnwys yn y broses cynllunio busnes ac mae'r Bwrdd wedi sicrhau cyfrifoldeb corfforaethol gyffredinol ar gyfer rheoli risg trwy osod y cyfrifoldeb yma o fewn yr Adran Strategaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Busnes ym mhob cyfarfod. Mae'r Bwrdd Croeso yn caffael gwasanaethau archwilio mewnol o dan gontract gan Price Waterhouse Coopers, sy'n gweithredu i safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith archwiliad mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risg yr amlygir y Bwrdd Croeso iddi, a seilir cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o'r risg a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cyflwyno gennyf fel y Swyddog Cyfrifyddu a bydd y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn cytuno arnynt. Bob blwyddyn o leiaf, bydd Archwiliad Mewnol yn rhoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwilio mewnol y Bwrdd Croeso. Mae'r adroddiad yn cynnwys eu barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Bwrdd Croeso.

**D.J.L. Jones**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu 15 Gorffennaf 2005

## BWRDD CROESO CYMRU

**Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 8 i 27 yn unol ag Adran 6 (4) i Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 12 a 13.

**Priod Gyfrifoldebau Bwrdd Croeso Cymru, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 4, Bwrdd Croeso Cymru a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae Bwrdd Croeso Cymru a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud ac ystyriaeth gennyf i'r safonau a chanllawiau a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 ac â'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad os na fydd y Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os na chadwodd y cwmni gofnodion cyfrifo cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalen 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Bwrdd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid oes gofyn i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried p'un a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar Reolaeth Fewnol yn cynnwys pob risg a rheoleiddiad. Hefyd, nid oes gofyn i mi ffurfio barn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd ar ei drefniadau risg a rheolaeth.

**Sail y Farn Archwilio**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu drwy afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol hefyd.

**Barn**

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun cywir a theg o gyflwr materion Bwrdd Croeso Cymru ar 31 Mawrth 2005 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.


Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA


4 Awst 2005

**CYFRIF INCWM A GWARIANT**

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005**

| | NODIADAU | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cymorth Grant | 2a | 19,101 | 18,738 |
| Grant y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Prosiectau Twristiaeth | 3 | 3,055 | 330 |
| Cyllid Arall gan y Cynulliad Cenedlaethol | 2c | 6,070 | 8,774 |
| Rhyddhau Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 2b | 167 | 220 |
| Undeb Ewropeaidd | 17 | 7,874 | 10,911 |
| Incwm Arall | 4 | 2,014 | 2,813 |
| | | 38,281 | 41,786 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau Staff | 5 | 3,376 | 3,432 |
| Taliadau Gweithredol Eraill | 6 | 22,291 | 24,438 |
| Cymorth Rhanbarthol | 7 | 3,725 | 3,195 |
| Grantiau i'r Diwydiant Twristiaeth | 3 | 10,550 | 11,369 |
| Cost dybiannol cyfalaf | | (30) | 17 |
| | | 39,912 | 42,451 |
| **Diffyg Gweithredol** | | (1,631) | (665) |
| Addasiad ar gyfer cost cyfalaf | | (30) | 17 |
| Colledion wrth waredu asedau sefydlog | | (1) | (2) |
| Adenillion grant o'r Diwydiant Twristiaeth | 11(ii) | 152 | 207 |
| Adenillion grant a dalwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 11(ii) | (152) | (207) |
| Llog i'w Dderbyn | | 190 | 106 |
| Llog Taladwy | | (156) | (88) |
| **Diffyg cyn treth** | | (1,628) | (632) |
| Treth Gorfforaethol daladwy | | (34) | (18) |
| **Diffyg am y flwyddyn wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn** | | (1,662) | (650) |
| **Datganiad o Symudiad ar Gronfeydd wrth Gefn** | | | |
| Gwarged argadwedig a ddygwyd ymlaen | | (93) | 557 |
| Diffyg am y flwyddyn | | (1,662) | (650) |
| **Ddiffyg argadwedig a gariwyd ymlaen** | | (1,755) | (93) |

Mae holl weithgareddau Bwrdd Croeso Cymru yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG**
**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005**

| | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn | (1,662) | (650) |
| Symudiad ar gronfa grant wrth gefn y llywodraeth | (76) | (66) |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n ymwneud â'r flwyddyn | (1,738) | (716) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**MANTOLEN**

**Ar 31 Mawrth 2005**

| | NODIADAU | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Asedau annirweddol | 8 | 23 | 38 |
| Asedau diriaethol | 9 | 126 | 187 |
| Benthyciadau gwarantedig | 10 | 98 | 109 |
| | | 247 | 334 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 11 | 4,806 | 5,397 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 9,224 | 3,872 |
| | | 14,030 | 9,269 |
| **Credydwyr**: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12a | (15,724) | (9,243) |
| Darpariaeth ar gyfer atebolrwydd a thaliadau | 12b | - | (73) |
| **(Rhwymedigaethau)/Asedau Cyfredol Net** | | (1,694) | (47) |
| **Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol** | | (1,447) | 287 |
| **Credydwyr**: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 13 | (98) | (109) |
| Darpariaeth ar gyfer atebolrwydd a thaliadau | 12b | (61) | (46) |
| **Cyfanswm Asedau llai'r Holl Rwymedigaethau** | | (1,606) | 132 |
| **Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 20 | (1,755) | (93) |
| Cronfa Grant wrth Gefn y Llywodraeth | 2b | 149 | 225 |
| **Cronfeydd y Llywodraeth** | | (1,606) | 132 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

D.J.L. Jones
Prif Weithredwr

15 Gorffennaf 2005

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005**

| | NODIADAU | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol | 19 | 5,351 | 1,357 |
| Elw o fuddsoddi a gwasanaethu arian | 19 | 19 | 16 |
| Treth a dalwyd | 19 | (18) | (14) |
| Gwariant cyfalaf | 19 | (91) | (154) |
| Mewnlif arian net cyn arian | | 5,261 | 1,205 |
| Ariannu | 19 | 91 | 154 |
| Cynnydd mewn arian parod | | 5,352 | 1,359 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 12 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## NODIADAU I'R CYFRIFON

### 1. DATGANIAD O'R POLISÏAU CYFRIFO

**(a) Confensiwn Cyfrifo**

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled ag y bo'r gofynion hynny yn briodol. Nid yw'r Asedau Sefydlog a'r stociau wedi eu hail brisio, gan nad oedd yr addasiadau, ym marn y Bwrdd, a oedd yn deillio o'r prisiad yn berthnasol i ddeall y cyfrifon.

**(b) Trethiant**

**(i) TAW**

Mae incwm o weithgareddau yn cynrychioli swm anfoneb y nwyddau a werthwyd neu'r gwasanaethau a ddarparwyd yn glir o ostyngiadau masnach a TAW. Mae gwariant yn cynrychioli swm y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd yn glir o ostyngiadau a TAW adenilladwy.

**(ii) Treth Gorfforaeth**

Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU yn ôl 19% o'r llog derbyniadwy.

**(c) Grant mewn Cymorth**

Caiff grant mewn cymorth a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwariant gweithredu ei gredydu i incwm. Caiff grant mewn cymorth i'w dderbyn ar gyfer gwariant cyfalaf ei gredydu i gyfrif Cronfa Grant Wrth Gefn y Llywodraeth a'i ryddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant dros fywydau defnyddiol amcangyfrifedig yr Asedau sefydlog perthnasol.

**(d) Llog i'w Dderbyn a Llog sy'n Daladwy**

Mae Llog i'w Dderbyn yn cynnwys llog ar fenthyciadau, a gaiff ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant wrth dderbyn taliad oherwydd natur ansicr yr incwm hwn a chyfraddau llog banc. Mae llog i'w dderbyn yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn glir o dreth corfforaeth.

**(e) Asedau Annirweddol a Diriaethol**

Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol yw'r asedau sefydlog annirweddol. Amorteiddir hwy dros dair blynedd. Mae'r Bwrdd wedi prisio'r holl asedau sefydlog yn ôl cost hanesyddol gan na fyddai unrhyw addasiadau adbrisio yn berthnasol ym marn y Bwrdd.

Darperir dibrisiant ar bob ased sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu'r gost llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig pob ased yn gyson dros fywyd defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Adeiladau prydles fer | - | dros dymor y brydles |
| Gosodiadau, ffitiadau ac offer swyddfa | | |
| Gosodiadau a ffitiadau | - | dros 10 mlynedd |
| Offer swyddfa | - | dros 6 blynedd |
| Cyfrifiaduron | - | dros 3 blynedd |

Darperir dibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael. Ni ddarperir dibrisiant yn y flwyddyn waredu.
Y terfyn isaf ar gyfer cyfalafu asedau diriaethol ac annirweddol yw £1,000.

**(f) Incwm Grant**

Caiff grantiau a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Prosiectau Twristiaeth eu credydu i incwm y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Credydir incwm yr UE yn y flwyddyn sy'n berthnasol i'r gwariant cysylltiedig. Cyfrifir am rantiau taladwy yn unol â'r rhesymeg fod rhwymedigaeth yn codi pan fydd derbynnydd y grant yn cynnal y gweithgaredd neu fel arall yn bodloni meini prawf hawl i'r grant. Sylfaen y symiau yn ymwneud ag incwm UE sydd wedi ei gynnwys o fewn dyledwyr yw ceisiadau a gyflwynir i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar 31 Mawrth 2005. Cyfrifir am addasiadau sy'n deillio trwy arholi'r ceisiadau hyn yng nghyfnodau cyfrifo'r dyfodol.

**(g) Benthyciadau a Grantiau Adenilladwy**

Polisi'r Bwrdd yw adennill benthyciadau a grantiau i brojectau twristiaeth pan gaiff yr amodau sy'n gysylltiedig â hwy eu torri ac ni ellir gweithredu unrhyw amodau amgen. Caiff adenillion eu dwyn i gyfrif pan gânt eu derbyn a'u hanfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)

**(h) Pensiynau**

Caiff cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Bwrdd Twristiaeth Prydeinig eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant er mwyn taenu cost pensiynau dros fywyd gwaith y cyflogeion. Codir cost ariannu ymddeoliadau cynnar a phensiynau ad-daliol ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn pan fyddant yn codi.

**(i) Prydlesi Gweithredu**

Codir rhent prydlesi gweithredu ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y maent yn gysylltiedig â hi.

**(j) Cronfeydd Net**

Mae Cronfeydd Net at ddibenion y Datganiad Llif Arian yn cynrychioli balansau arian parod a ddelir yn y banc, mân arian a gweddill mesurydd postio.

**(k) Cost Dybiannol Cyfalaf**

Gwneir addasiad cyfalaf tybiannol sy’n adlewyrchu’r gost cyfalaf a ddefnyddiwyd yn erbyn gwariant a’i gyfrifo ar 3.5% o werth cyfartalog Cyfanswm yr Asedau llai’r Holl Rwymedigaethau.

2a **CYMORTH GRANT**

| | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|
| Cymorth Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 19,192 | 18,892 |
| Swm a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant cyfalaf | (91) | (154) |
| Swm a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant | 19,101 | 18,738 |

2b **CRONFA GRANT WRTH GEFN Y LLYWODRAETH**

| | | |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 225 | 291 |
| Swm i'w dderbyn yn ystod y flwyddyn | 91 | 154 |
| Swm a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant | (167) | (220) |
| Ar 31 Mawrth | 149 | 225 |

2c **CYLLID ARALL GAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglenni Datblygu | | |
| Adfer Cefn Gwlad | 1,753 | 2,588 |
| Ffordd i Ffyniant – grantiau | 1,574 | 2,804 |
| Cronfeydd eraill a glustnodwyd | 358 | 251 |
| | 3,685 | 5,643 |
| Ffordd i Ffyniant – incwm | 21 | |
| | 3,706 | |
| Rhaglenni Marchnata | | |
| Ffordd i Ffyniant | 2,064 | 2,409 |
| Cronfeydd eraill a glustnodwyd | 300 | 722 |
| | 2,364 | 3,131 |
| Cyllid arall gan y Cynulliad Cenedlaethol | 6,070 | 8,774 |

3. **PROSIECTAU TWRISTIAETH**

| | NODYN | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | | | |
| Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | 3,055 | 330 |
| Cyllid arall gan y Cynulliad Cenedlaethol | 2c | 3,685 | 5,643 |
| Undeb Ewropeaidd | 17 | 3,810 | 5,396 |
| Incwm o bob ffynhonnell | | 10,550 | 11,369 |
| Gwariant | | | |
| Grantiau a roddwyd i'r Diwydiant Twristiaeth (a ran ariannwyd gan yr UE) | | 5,382 | 8,200 |
| Cynllun ReAct | | 2 | 137 |
| Cynllun Adfywio | | 1,753 | 2,451 |
| Prosiectau a glustnodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | | 358 | 251 |
| Grantiau eraill a ariannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | | 3,055 | 330 |
| Grantiau a i'r Diwydiant Twristiaeth dan Ran 1 y Ddeddf | | 10,550 | 11,369 |

4. **INCWM ARALL**

Gellir priodoli incwm i'r gweithgareddau canlynol:-

| | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|
| Gwerthiant cyhoeddiadau | 12 | 20 |
| Gwerthu hysbysebion | 856 | 258 |
| Taliadau am wasanaethau | 1,146 | 1,843 |
| Ad-daliad TAW | - | 692 |
| | 2,014 | 2,813 |

5. **COSTAU STAFF**

**[a] CYFLOGAU**

**Cyflogau, Costau Nawdd Cymdeithasol a Chyfraniadau Pensiwn**

| | 2004/2005 | | | 2003/2004 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau Gweithredu | Rhaglenni (Nodiadau 6,7) | Cyfanswm | Costau Gweithredu | Rhaglenni (Nodiadau 6,7) | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogeion y Bwrdd - cyflogau | 2,946 | 1,570 | 4,516 | 2,902 | 1,414 | 4,316 |
| Aelodau'r Bwrdd - cyflogau | 105 | - | 105 | 112 | - | 112 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 246 | 125 | 371 | 240 | 115 | 355 |
| Cyfraniadau Pensiwn [Nodyn 5(b)] | 31 | 12 | 43 | 27 | 9 | 36 |
| Newid ar ddarpariaeth pensiwn Cadeirydd [Nodyn 12b] | 15 | - | 15 | 18 | - | 18 |
| | 3,343 | 1,707 | 5,050 | 3,299 | 1,538 | 4,837 |
| Costau asiantaeth gyflogi | 33 | 128 | 161 | 133 | 107 | 240 |
| | 3,376 | 1,835 | 5,211 | 3,432 | 1,645 | 5,077 |

**Cydnabyddiaethau Aelodau'r Bwrdd** a geir yn yr uchod:-

| | 2004/05 | 2003/04 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflog y Cadeirydd | 44 | 44 |
| Aelodau Eraill y Bwrdd | 42 | 44 |
| Pensiwn ar gyfer cyn Gadeiryddion | 10 | 15 |
| Cytundeb talu TWE | 9 | 9 |
| | 105 | 112 |

**Cydnabyddiaethau'r Staff**

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddatgelu'r manylion canlynol parthed uwch staff â'r awdurdod neu'r cyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli ei brif weithgareddau –

| | 2004/2005 Cyflog | 2004/2005 Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2005 | GTCA (ii) ar 31 Mawrth 2004 | GTCA ar 31 Mawrth 2005 | 2004/2005 Cynnydd Gwirioneddol mewn GTCA |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Jonathan Jones *Prif Weithredwr* | 90 – 95 | 0 – 2.5 | (i) 45 – 50 | 392 | 390 | (6) |
| Roger Pride *Cyfarwyddwr Marchnata* | 55 – 60 | 0 – 2.5 | 15 – 20 | 173 | 195 | 19 |
| Steve Webb *Cyfarwyddwr Strategaeth* | 50 – 55 | 2.5 – 5.0 | 2.5 – 5.0 | 320 | 354 | 29 |
| Geraint James *Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifenydd i'r Bwrdd* | 50 – 55 | 0 – 2.5 | 0 – 2.5 | 81 | 97 | 13 |
| John Kingsford *Cyfarwyddwr Masnachol* | 60 – 65 | 0 – 2.5 | 0 – 2.5 | 5 | 19 | 11 |
| *Lucy O'Donnell Cyfarwyddwr Dabtlygu (o 1.1.04)* | 45 – 50 | 0 – 2.5 | 10 – 15 | - | 113 | 111 |

(i) Buddiannau yn daladwy yn 65 oed

(ii) Gwerth Trosiannol Cyfatebol i Arian (GTCA) yw'r gwerth cyfalafog a asesir yn actiwaraidd o'r buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol. Y buddiannau a werthusir yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu'n drefniant i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu'n drefniant ble mae'r aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu hen gynllun.

**COSTAU STAFF (PARHAD)**

Yn y nodyn uchod sy'n ymwneud ag uwch staff, mae "Cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonysau, goramser, lwfansau recriwtio a chadw, ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn drethadwy yn y DU. Mae cydnabyddiaethau'r staff yn cynnwys buddiannau o £9,301 a dalwyd o dan Gytundeb Talu TWE mewn perthynas â 2003/2004 (2003/2004: £8,863 talwyd mewn perthynas â 2002/2003).

Cyflog y Prif Weithredwr yw cyflog gros o £86,700 a bonws nad yw wedi'i gyfuno o £4,624 (2003/2004 – cyflog gros o £74,759 a bonws nad oedd wedi'i gyfuno o £3,429). Roedd yn gymwys am fonws perfformiad yn seiliedig ar dargedau a osodwyd gan y Bwrdd. O 1 Ionawr 2004 fe gyflogwyd y Prif Weithredwr gan y Bwrdd ar gytundeb o gyfnod diderfyn. Mae'n aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Bwrdd.

Cytundebir y Cadeirydd i weithio 3 diwrnod yr wythnos. Mae manylion ar gyfer Philip Evans*, a gyflogir ar gontract tymor sefydlog o 1 Ebrill 2000 hyd at 31 Mawrth 2003 (bellach wedi ei ymestyn i 31 Mawrth 2006) fel a ganlyn:-

| Cyflog a buddiannau £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed £000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2005 £000 | GTCA ar 31Mawrth 2004 £000 | GTCA ar 31Mawrth 2005 £000 | 2004/2005 Cynnydd gwirioneddol mewn GTCA £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 40 – 45 | 0 – 2.5 | 0 – 5 | 41 | 49 | 6 |

* Nid yw Mr Evans yn aelod o'r cynllun pensiwn ac mae ganddo drefniant pensiwn unigol "drwy gymhariaeth" fel y cytunwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r buddiannau yn daladwy gan Fwrdd Croeso Cymru ar derfyn y contract ar ôl 55 oed.

Mae Aelodau eraill y Bwrdd ar gontract i weithioisafswm o 2 ddiwrnod y mis ar gyflog nad yw'n bensiynadwy o £8,371 (2003/2004 - £8,317). Cynhwysir manylion Cyfnodau Cytundeb Aelodau'r Bwrdd yn y Rhagair.

**Nifer misol y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:-**

| | 2004/2005 Nifer | 2003/2004 Nifer |
|---|---|---|
| Staff: Costau Gweithredu | | |
| Marchnata | 25.6 | 40.3 |
| Masnachol | 23.4 | - |
| Strategaeth a Cyfathrebu | 16.4 | 25.0 |
| Datblygu | 11.8 | 23.8 |
| Cyllid, Gwasanaethau Adnoddau a Swyddfa Weithredol | 24.2 | 21.2 |
| | 101.4 | 110.3 |
| Staff: Rhaglenni | 64.5 | 61.9 |
| Cyfanswm ar y Gyflogres | 165.9 | 172.2 |

**[b] YMRWYMIADAU PENSIWN**

Mae’r Bwrdd yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Bwrdd Twristiaeth Prydeinig gan ddarparu buddiannau pensiwn ac yswiriant bywyd i bob aelod parhaol o’r staff. Mae’n gynllun buddiannau diffiniedig a ariannwyd, yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Delir yr Asedau gan y Cynllun Pensiwn o dan gontract cronni arian gyda’r Prudential Assurance Company Limited.

Mae’r cynllun yn gynllun buddiannau aml-gyflogai yn cynnwys byrddau twristiaeth eraill ble mae cyfraniad cyflogai wedi eu heffeithio gan warged neu ddiffyg yn y cynllun, ond mae pob cyflogwr yn methu adnabod ei gyfran o’r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar sail gyson a rhesymol. O ganlyniad, mae’r Bwrdd wedi ateb ar gyfer ei gyfraniadau i’r cynllun fel pe bai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig yn unol â chanllaw Corff Cyhoeddus Anadrannol.

Mae Actwari’r Cynllun Pensiwn wedi cynnal prisiad interim at ddibenion y datgeliadau trosiannol. Roedd hyn yn seiliedig ar ddata aelodaeth ar 1 Ebrill 2004, a ddiweddarwyd i 31 Mawrth 2005.

Y tybiaethau a gaiff yr effaith fwyaf arwyddocaol ar ganlyniadau’r prisiad yw’r rheini sy’n ymwneud â’r gyfradd elw o fuddsoddi a’r cyfraddau cynnydd mewn cyflogau a’r pensiynau a delir. Tybiwyd ar gyfer y prisiad interim y byddai elw o fuddsoddi yn yr hirdymor yn 6.9% y flwyddyn; byddai cyflogau yn cynyddu 4.4% y flwyddyn ar gyfartaledd, a byddai pensiynau yn cynyddu mewn tâl 2.9% y flwyddyn.

Dangosodd prisiad interim 2005 mai gwerth Asedau y cynllun oedd £148.9miliwn a bod gwerth actiwaraidd yr Asedau hynny yn cynrychioli 99.7% o’r buddiannau a oedd wedi cronni i’r aelodau bryd hynny, ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn 1% o’r cyflogau pensiynadwy oedd cyfraniad y Bwrdd tuag at y cynllun (2003/2004: 1% o gyflogau pensiynadwy). Cyfanswm cyfraniadau’r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd £37,000 ynghyd â chyfraniadau ychwanegol o £Dim (gweler Nodyn 6) i sicrhau buddiannau estynedig i staff yn ymddeol yn gynnar (2003/2004: £27,000).

Yn dilyn yr arolwg, mae’r Actwari wedi argymell cynnydd yng nghyfraniad cyflogai i gyfateb i 5.4% yn daladwy dros y 15 mlynedd yn dilyn y gwerthusiad. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Cyfraniad |
|---|---|
| 2004/2005 | 1% |
| 2005/2006 | 2.9% |
| 2006/2007 | 4.8% |
| 2007/2008 ymlaen | 6.7% |

Mae darpariaeth wedi ei sefydlu yn y Cyfrifon hyn i adlewyrchu costau cronnol hawl pensiwn y Cadeirydd presennol (Nodyn 12b). Gan na fydd croniad o gyllid, os daw’r swydd i ben yn gynnar a bod angen trosglwyddo gwerth i gynllun arall, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn talu’r costau os nad oes gan y Bwrdd gronfeydd digonol.

**[c] TEITHIO A CHYNHALIAETH**

| | 2004/2005 | 2003/2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogeion y Bwrdd | 211 | 246 |
| Cadeirydd ac Aelodau eraill y Bwrdd | 33 | 55 |
| | 244 | 301 |

Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys adloniant busnes.

6. **TALIADAU GWEITHREDOL ERAILL**

| | 2004/2005 | 2003/2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |

| | | |
|---|---|---|
| Teithio a chynhaliaeth | 244 | 301 |
| Cydnabyddiaeth yr Archwilydd - | | |
| Ffi archwilio mewnol | 26 | 23 |
| Ffi archwilio allanol | 27 | 26 |
| Gwaith archwilio allanol arall | 37 | 12 |
| Gwariant gweinyddol arall | 1,476 | 1,556 |
| Marchnata | 14,655 | 15,646 |
| Masnachol | 3,827 | 4,106 |
| Strategaeth, Ymchwil a Chyfathrebu | 1,053 | 1,462 |
| Datblygu | 780 | 1,080 |
| Cynnydd mewn darpariaeth dyledion drwg | - | 8 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 166 | 218 |
| | 22,291 | 24,438 |

Yn gynwysedig yn yr uchod mae costau'r staff a secondiwyd, sef, cyflogau, costau nawdd cymdeithasol, ymrwymiadau pensiwn a chostau asiantaeth gyflogi gwerth £1,721,000 (2003/2004:£1,539,000)

Roedd £7,900,000 o Daliadau Gweithredol Eraill yn berthnasol i brosiectau marchnata a ran-ariannwyd gan yr UE (2003/2004: £9,364,000)

## 7. CYMORTH RHANBARTHOL

Darparodd y Bwrdd y cymorth canlynol i gwmnïau am gyflwyno gwasanaethau i'r diwydiant twristiaeth ac i'r twrist:-

| | 2004/2005<br>£000 | 2003/2004<br>£000 |
|---|---|---|
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | 1,155 | 1,050 |
| Partneriaeth Twristiaeth – Canolbarth Cymru | 665 | 600 |
| Partneriaeth Twristiaeth De Orllewin Cymru | 875 | 750 |
| Uwch Ranbarth Twristiaeth | 805 | 600 |
| Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru | 200 | 170 |
| Cynghrair Twristiaeth Cymru | 25 | 25 |
| | 3,725 | 3,195 |

Yn gynwysedig yn yr uchod mae costau'r staff a secondiwyd, sef, cyflogau, costau nawdd cymdeithasol ac ymrwymiadau pensiwn gwerth £114,000 (2003/2004: £106,000).

## 8. ASEDAU SEFYDLOG ANNIRWEDDOL

| | £000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 107 |
| Ychwanegiadau | 14 |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 121 |

| | |
|---|---|
| **<u>Amorteiddiad</u>** | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 69 |
| Tâl am y flwyddyn | 29 |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 98 |
| **<u>Gwerth Llyfr Net</u>** | |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 23 |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 38 |

9. **ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL**

| | Tir ac Adeiladau Prydles Fer | Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer Swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 87 | 1,075 | 1,162 |
| Ychwanegiadau | - | 77 | 77 |
| Gwarediadau a symiau a ddilëwyd | - | (118) | (118) |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 87 | 1,034 | 1,121 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 53 | 922 | 975 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 3 | 134 | 137 |
| Gwarediadau a symiau a ddilëwyd | - | (117) | (117) |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 56 | 939 | 995 |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 31 | 95 | 126 |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 34 | 153 | 187 |

(i) Mae Tir ac Adeiladau yn cynrychioli eiddo ar Faes Sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

(ii) Gosodiadau a Ffitiadau yw'r rheini a geir ym mhrif swyddfeydd y Bwrdd ac Offer Swyddfa yw'r dodrefn swyddfa a'r cyfrifiaduron.

## 10. BENTHYCIADAU GWARANTEDIG A BENTHYCIADAU TYMOR HIR

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Yn ddyledus ar 1 Ebrill | 144 | 235 |
| Ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn | (11) | (61) |
| Benthyciadau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn | - | (30) |
| Yn ddyledus ar 31 Mawrth | 133 | 144 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus ar 1 Ebrill | 35 | 65 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth | - | (30) |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus ar 31 Mawrth | 35 | 35 |
| **Gwerth benthyciadau sy'n ddyledus ar 31 Mawrth** | 98 | 109 |
| Ad-daliadau benthyciadau mewn ôl-ddyledion ar 31 Mawrth | 0 | 0 |

Dim ond o fenthyciadau hir dymor a wnaed i Fwrdd Croeso Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y caiff benthyciadau gwarantedig eu dosbarthu. Cyfnod ad-dalu'r benthyciadau hyn yw 10 mlynedd.

## 11 DYLEDWYR A RHAGDALIADAU: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 453 | 314 |
| Dyledwr Undeb Ewropeaidd | 3,776 | 4,307 |
| Dyledwyr eraill | 170 | 108 |
| Rhagdaliadau | 390 | 645 |
| Llog i'w dderbyn [Nodyn (i) isod] | 62 | 65 |
| Grantiau adenilladwy [Nodyn (ii) isod] | 11 | 14 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus | (56) | (56) |
| Cyfanswm y Dyledwyr Masnach a Rhagdaliadau | 4,806 | 5,397 |

(i) Llog i'w dderbyn

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Dyledus ond heb ei dderbyn eto ar 1 Ebrill | 65 | 71 |
| Enillwyd yn ystod y flwyddyn | 6 | 11 |
| Swm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | (9) | (12) |
| Swm a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn | - | (5) |
| Dyledus ond heb ei dderbyn eto ar 31 Mawrth | 62 | 65 |

(ii) Grantiau adenilladwy

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Grantiau dyledus adenilladwy ar 1 Ebrill | 14 | 28 |
| Grantiau a ddaw yn adenilladwy yn ystod y flwyddyn | 149 | 208 |
| Derbyniwyd yn ystod y flwyddyn | (152) | (207) |
| Dilëwyd | - | (15) |
| Grantiau dyledus yn adenilladwy ar 31 Mawrth | 11 | 14 |

## 12a CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnach | 3,234 | 2,054 |
| Incwm Gohiriedig | 481 | 22 |
| Trethiant a Chredydwyr Nawdd Cymdeithasol | 122 | 124 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 11,654 | 6,678 |
| Treth Corfforaeth yn Daladwy | 35 | 18 |
| Credydwyr Eraill | 151 | 170 |
| Credydwyr Grant | - | 122 |
| Croniadau | 47 | 55 |
| | 15,724 | 9,243 |

12b **DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU**

| | O fewn un flwyddyn: Darpariaeth ar gyfer diswyddo | Wedi mwy na blwyddyn: Darpariaeth ar gyfer pensiwn Cadeirydd presennol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Daliannau ar 1 Ebrill 2004 | 73 | 46 | 119 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 15 | 15 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | (73) | - | (73) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2005 | - | 61 | 61 |

13. **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

| | 2005 | 2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Benthyciadau Hir Dymor – ad-daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Nodyn 10) | 98 | 109 |

14. **YMRWYMIADAU A THREULIAU ANNISGWYL**

Ar 31 Mawrth 2005 roedd y symiau canlynol yn ddyledus i'w talu:

| | (a) 2005 £000 | (b) 2005 £000 | (c) 2005 £000 | (a) 2004 £000 | (b) 2004 £000 | (c) 2004 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2004/2005 | - | - | - | 15,363 | 20 | 1,506 |
| 2005/2006 | 11,667 | 59 | 3,717 | 1,660 | - | 387 |
| 2006/2007 | 2,231 | 59 | 2,558 | - | - | 81 |
| 2007/2008 | - | 59 | 1,299 | - | - | - |
| 2008/2009 | - | 59 | 261 | - | - | - |
| 2009/2010 | - | 20 | - | - | - | - |
| | 13,898 | 256 | 7,835 | 17,023 | 20 | 1,974 |

(a) Benthyciadau a grantiau a gymeradwywyd o dan Ran 1 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969.

(b) Symiau sy'n daladwy mewn perthynas ag Ystafell Lletygarwch yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd.

(c) Symiau sy'n daladwy mewn perthynas â chytundebau amrywiol.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau na threuliau annisgwyl sy'n gysylltiedig â chyfnodau y tu hwnt i 2009/2010.

15. **PRYDLESAU GWEITHREDOL**

| | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|
| a) Mae ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau gweithredol fel a ganlyn: | | |
| Tir ac Adeiladau, gyda phrydlesau sy'n dod i ben: | | |
| o fewn blwyddyn | 5 | - |
| o fewn dwy i bum mlynedd yn gynhwysol | 467 | 388 |
| mewn mwy na phum mlynedd | 6 | 6 |
| | 478 | 394 |
| b) Rhenti prydles a gweithredol a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | 478 | 394 |

16. **YMRWYMIADAU CYFALAF**

Ymrwymiadau Cyfalaf: £Dim (2003/2004 £10,000)

17. **ARIAN YR UNDEB EWROPEAIDD**

Derbyniwyd incwm drwy gyfrwng grant oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005:

| | NODYN | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni 2000 – 2006 - | | | |
| Rhaglenni Datblygu – grantiau | 3 | 3,810 | 5,396 |
| Rhaglenni Datblygu – incwm | | 182 | - |
| Rhaglenni Marchnata | | 3,882 | 5,515 |
| | | 7,874 | 10,911 |

18. **SAFON ADRODD CYLLIDOL RHIF 13: TARDDIADAU AC OFFERYNNAU CYLLIDOL ERAILL**

Nid oes gan Fwrdd Croeso Cymru unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu yn bennaf ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru am rantiau ac anghenion ariannol, ac felly nid ydyw mewn perygl o risg hylifedd. Nid oes ganddo ychwaith unrhyw adnau materol a enwadir mewn sterling, felly nid ydyw mewn perygl o risg cyfradd llog neu risg arian treigl.

19. **NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN**

**Cysoni Gwarged Gweithredol i'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol**

| | NODIADAU | 2004/2005 £000 | 2003/2004 £000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged gweithredol | | (1,631) | (665) |
| (Cynnydd)/lleihad mewn dyledwyr | | 591 | (71) |
| Cynnydd mewn credydwyr | | 6,481 | 1,989 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth | | (58) | 91 |
| Dibrisiant Asedau sefydlog diriaethol | 9 | 137 | 182 |
| Dibrisiant Asedau sefydlog annirweddol | 8 | 29 | 36 |
| Rhyddhad o gronfa grant wrth gefn y llywodraeth | 2b | (167) | (220) |
| Colled ar waredu Asedau sefydlog | | (1) | (2) |
| Tâl tybiannol – cost cyfalaf | | (30) | 17 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol | | 5,351 | 1,357 |

**Elw ar Fuddsoddiad a gwasanaethu cyllid**

| | | |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd | 187 | 105 |
| Llog a dalwyd | (168) | (89) |
| | 19 | 16 |

**Trethiant**

| | | |
|---|---|---|
| Treth a dalwyd | (18) | (14) |

**Gwariant Cyfalaf**

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael Asedau sefydlog diriaethol | (77) | (111) |
| Taliadau i gaffael Asedau sefydlog annirweddol | (14) | (43) |
| | (91) | (154) |

**Ariannu**

| | | |
|---|---|---|
| Grant gohiriedig y llywodraeth a dderbyniwyd | 91 | 154 |

**Cysoni llif arian parod net i symudiad yn y cronfeydd net**

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | 5,352 | 1,359 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 3,872 | 2,513 |
| Cronfeydd net ar 1 Mawrth | 9,224 | 3,872 |

20. **CYSONI SYMUDIAD YNG NGHRONFEYDD Y LLYWODRAETH**

| | Cyfrif Incwm a Gwariant £000 | Cronfa Grant y Llywodraeth £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn | (1,662) | - | (1,662) |
| Symudiad yng ngrant gohiriedig y llywodraeth | - | (76) | (76) |
| Symudiad yng nghronfeydd y llywodraeth yn y flwyddyn | (1,662) | (76) | (1,738) |
| Cronfeydd y llywodraeth ar 1 Ebrill | (93) | 225 | 132 |
| Cronfeydd y llywodraeth ar 31 Mawrth | (1,755) | 149 | (1,606) |

## 21. <u>TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG</u>

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn un o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, bu amryw o drafodion perthnasol rhwng Bwrdd Croeso Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chydag endidau eraill y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried yn Rhiant-Adran iddynt, sef Awdurdod Datblygu Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Yn ogystal, bu nifer fechan o drafodion perthnasol rhwng Bwrdd Croeso Cymru ac Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn â VisitBritain.

Heblaw'r canlynol, nid oes un o aelodau'r bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodaethau perthnasol â Bwrdd Croeso Cymru yn ystod y flwyddyn:

Mae <u>Philip Evans</u>, Cadeirydd y Bwrdd Croeso, yn gysylltiedig â'r cwmnïau canlynol a dderbyniodd gymorth ariannol gan y Bwrdd Croeso fel y nodir isod:

| | | 2004/2005 | 2003/2004 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Celtic Haven Village | Cymorth grant | Dim | 172,640 |

## 22. <u>UNO GYDA LLYWODRAETH Y CYNULLIAD</u>

Fel y cyfeiriwyd ato yn y Rhagair, ar 14 Gorffennaf 2004, fe gyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y penderfyniad i gyfuno gwaith y Bwrdd yn uniongyrchol ag Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad o 1 Ebrill 2006. Yn ystod 2004/05, cyflawnwyd gwaith cychwynnol i sicrhau fod y trefniadau angenrheidiol yn weithredol ar gyfer trosglwyddo didrafferth o weithredoedd o'r dyddiad hwn. Bydd y gwaith yn parhau trwy gydol 2005/06, tra'n cynnal busnes fel arfer i'n cwsmeriaid.

Ar adeg llofnodi'r cyfrifon hyn, mae nifer o elfennau ansicr yn bodoli, yn arbennig parthed trefniadau staffio. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd yn gallu sefydlu amcangyfrif cyflawn dibynadwy o gostau cysylltiedig â'r uno yn y dyfodol. Ble gellir gwneud amcangyfrif rhesymol o gostau yn y dyfodol, gwnaethpwyd darpariaeth ar eu cyfer o fewn y cyfrifon hyn.

Ni chafwyd gwariant materol cysylltiedig â'r uno yn 2004/05.

Mae costau TG cysylltiedig â'r uno o £70,000 wedi ei nodi mewn perthynas â 2005/06. Ni wnaethpwyd unrhyw ymrwymiadau parthed hyn ac felly ni ystyrir i unrhyw ddarpariaeth ddeillio ar 31 Mawrth 2005.